

Cymwys ar gyfer y Dyfodol – Ymgynghoriad Cymwysterau Cymru

Ymateb UCAC: Chwefror 2020

Cynnig: Dylai Cymwysterau Cymru gymryd camau i sicrhau bod cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd i Gymru, a'i gefnogi.

Cytuno'n gryf

Yn gam neu'n gymwys, er gwell neu er gwaeth, mae'n rhaid derbyn bod cymwysterau - ac yn arbennig felly cymwysterau a gymerir yn 16 oed - yn dylanwadu'n gryf ar gynnwys, addysgeg a dulliau asesu'r cwricwlwm yn arwain ian at ddechrau astudio ar gyfer y cymhwyster. Mae'r cyfnod a elwir ar hyn o bryd yn Gyfnod Allweddol 3 yn arbennig o ddarostyngedig i'r dylanwad hwn.

Gan hynny, mae'n bwysig bod cymwysterau'r dyfodol yn ategu ac yn atgyfnerthu ethos ac athroniaeth y cwricwlwm newydd, ac yn cymell ysgolion i wreiddio'r dulliau newydd ac i barhau â nhw hyd at a thrwy gydol y cyfnod sy'n cyfateb i Gyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd.

O sicrhau y gwneir hyn, bydd cymwysterau yn hwyluso'r broses o sefydlu ac ymwreiddio'r cwricwlwm newydd. O fethu sicrhau cydnawsedd rhwng y cwricwlwm newydd â chymwysterau, mi allai'r gyfundrefn cymwysterau danseilio gweithrediad y cwricwlwm i raddau helaeth iawn.

Cytunwn y gallai'r gofyniad i gyflwyno tystiolaeth o gydnawsedd â'r cwricwlwm newydd fod yn un dull ar gyfer rhesymoli'r cynnig a lleihau'r gormodedd dryslyd o gymwysterau sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Bydd angen ystyriaeth ofalus ynghylch natur a lefel manylder y dystiolaeth sy'n dderbyniol i brofi cydnawsedd. Teimlwn fod y rhestr enghreifftiol yn 4.7 o bosib braidd yn rhy benagored.

Cynnig: Dylai Cymwysterau Cymru ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus, ac a gymerir yn 16 oed, ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Cytuno'n gryf

Mae'r egwyddor hon yn un eithriadol o bwysig - nid yn unig o safbwynt gwireddu amcanion polisi Llywodraeth Cymru, ond yn ogystal o safbwynt sicrhau tegwch i ddysgwyr cyfrwng Gymraeg, a sicrhau llwybrau dilyniant iddynt.

Er mai cymharol fach yw nifer yr enghreifftiau o gymwysterau nad ydynt ar gael yn y Gymraeg ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y nifer yn cynyddu'n raddol. Ac er mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn cael eu heffeithio gan y prinder, mae hynny yn ei hun yn annhegwch yn y system nad yw'n dderbyniol. Mi allai absenoldeb cymhwyster penodol yn y Gymraeg greu toriad yn nilyniant datblygiad sgiliau'r disgyblion hynny - naill ai drwy eu bod yn dewis peidio dilyn y cymhwyster/pwnc, neu eu bod yn dewis ei ddilyn drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'n bosib bod rhai achosion pan fydd disgyblion yn newid yn gyfan gwbl i addysg cyfrwng Saesneg er mwyn bod mewn sefydliad sy'n cynnig y pwnc - gan dorri'r dilyniant ieithyddol yn gyfan gwbl.

Mae rhai yn gweld peryg y gallai'r cynnig hwn gael sgil-ffeithiau anfwriadol o ran cyfyngu'r dewis o bynciau yn y ddwy iaith. Mae'r ddadl honno'n diystyru'r ffaith bod y dewis o bynciau yn cael ei gyfyngu ar hyn o bryd - ar gyfer dysgwyr cyfrwng Gymraeg. Mae tegwch a chydaddoldeb yn hollbwysig. Cytunwn gyda'r pwyslais ym mharagraff 4.21 y ddogfen ymgynghorol bod angen defnyddio'r holl opsiynau sydd ar gael i sicrhau darpariaeth ddwyieithog - a chytunwn gyda'r ddau ddull a awgrymir (cyfyngu ar nifer y cymwysterau a ariennir yn gyhoeddus mewn maes penodol; a chynnig cyllid grant at gostau ychwanegol).

Mae ymdrechion Cymwysterau Cymru i annog cyrff dyfarnu i ddarparu yn y ddwy iaith - gan gynnwys drwy gynnig cyllid - wedi bod yn glodwiw. Ond mewn llawer o achosion nid yw'r ymdrechion wedi bod yn llwyddiannus. Gan hynny, cefnogwn yn gryf iawn y cynnig i fabwysiadu'r egwyddor - cryfach nag ar hyn o bryd - i'w wneud yn ofynnol i gyrff dyfarnu sicrhau bod yr holl gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus (16 oed) ar gael yn y ddwy iaith.

Mae'n bosib y bydd angen ystyried cymhwyso eithriadau, fel yr awgryma paragraff 4.22. Ond bydd angen sicrhau bod y rhain yn eithriadau gwirioneddol, a bod rhesymau teilwng i'w cyfiawnhau. Nid ydym mewn sefyllfa i gynnig enghreifftiau/amgylchiadau penodol (a byddem yn gobeithio gallu osgoi creu eithriadau o'r fath yn gyfan gwbl) - ond byddem yn barod iawn i drafod y mater ymhellach gyda Chymwysterau Cymru yn ôl yr angen.

Dylai Cymwysterau Cymru reoli'n agosach yr ystod o gymwysterau a ariennir yn gyhoeddus y gall canolfannau eu cynnig i bobl ifanc 16 oed i sicrhau ei bod yn deg ac yn gydlynol.

Cytuno'n gryf

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylid cadw'r enw TGAU ar gyfer y cymwysterau wedi'u hailddylunio a fydd yn rhan ganolog o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru.

Cytuno

Cytunwn â'r dadansoddiad a'r casgliad yn y ddogfen ymgynghori ynghylch cael cydbwysedd rhwng newid a sefydlogrwydd dros y blynyddoedd nesaf.

Cytunwn bod modd sicrhau'r lefel briodol a hanfodol o newid oddi fewn i fframwaith o gymwysterau a barheir i alw'n 'TGAU', a thrwy hynny osgoi mwy o ansefydlogrwydd nag sydd ei angen ar adeg o ddiwygiadau pellgyrhaeddol.

Mae elfennau atyniadol yn yr hyn a amlinellir ym mharagraff 5.14 fel 'dull amgen' a allai gwneud y cymwysterau'n fwy cydnaws byth â'r cwricwlwm newydd. A theimlwn y byddai'n braf gallu dod yn ôl at y rhain ac at drafodaeth am ddiwygio cynyddol (*incremental*) fel cam/camau pellach ar ôl y diwygio 'cychwynnol' a chyfnod ymwreiddio.

Ar ôl pwyso a mesur, credwn y dylai cymhwyster penodol sy'n cefnogi datblygu ac asesu'r sgiliau ehangach (fel y'u diffinnir yn y cwricwlwm newydd) fod yn rhan o'r cymwysterau a gynigir ar gyfer pobl ifanc 16 oed.

Cytuno'n gryf

Cytunwn â chasgliadau adolygiadau Cymwysterau Cymru a'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg bod y Dystysgrif Her Sgiliau'n gymhwyster gwerthfawr â manteision amrywiol a niferus; cydsyniwn yn ogystal â'r meysydd penodol sydd wedi'u hadnabod yn yr adolygiadau hyn ar gyfer addasu a gwella.

Nid ydym yn gweld unrhyw anhawster gyda datblygu'r sgiliau a restrir mewn cymhwyster penodol yn ogystal â mewn cymwysterau eraill mewn pynciau penodol. I'r gwrthwyneb, mae hynny'n arwydd o gwricwlwm cydlynus sy'n ategu ei hun mewn gwahanol ffyrdd a chyd-destunau.

Mae dwy elfen yn arbennig o'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n cryfhau'r ddadl dros ei chadw yn y cynnig cymwysterau fydd yn cydfynd â'r cwricwlwm newydd. Y naill yw'r rhyddid i bennu cyd-destun personol, perthnasol, 'byd go-iawn' (sy'n beth prin o fewn fframwaith cymwysterau lled rhagnodol fel arall), a'r llall yw'r ffaith ei fod yn hylaw i ddysgwyr ar bron bob lefel ac felly'n elfen sy'n hyrwyddo ac yn ymgorffori gwerthoedd cynhwysiant, mynediad a chydaddoldeb. Teimlwn y byddai colli'r elfennau hynny trwy ymgorffori'r sgiliau oddi fewn i gymwysterau pwnc-penodol eraill yn unig yn golled sylweddol iawn.

Rydym wedi cyfeirio mewn ymateb i gwestiwn blaenorol at y posibilrwydd o ddiwygio pellach posib ar ôl y diwygiadau cychwynnol, a theimlwn fod gan y Dystysgrif Her Sgiliau, o fewn cyd-destun y Fagloriaeth, y potensial i gynnig sail (Cymreig, a chyfarwydd) ar gyfer datblygiadau pellach i'r fframwaith cymwysterau ehangach. Mi fyddai colli'r Dystysgrif Her Sgiliau (neu rhywbeth cyfatebol) yn y cam diwygio cychwynnol yn cau'r drws i raddau helaeth ar y potensial hynny ar gyfer datblygiad pellach - a theimlwn y byddai hynny'n gwastraffu cyfle gwerthfawr ac felly'n gam gwag iawn.

A fyddai unrhyw un o'n cynigion yn arwain at unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol eraill (bwriadol neu anfwriadol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg?

Effaith gadarnhaol

Gallai mabwysiadu a gweithredu Egwyddor 2 'Cymwysterau sydd ar gael yn ddwyieithog' gael effaith gadarnhaol ar allu dysgwyr i ddewis sefyll cymwysterau mewn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. O gan ganlyniad i hynny, byddai llwybrau dilyniant yn y Gymraeg yn cael eu hagor, ymlaen o bosib i astudiaethau neu hyfforddiant pellach - ac o bosib wedyn i swyddi ble byddai'r sgiliau 'pynciol' a'r sgiliau Cymraeg yn cael eu defnyddio er budd yr unigolion hynny, ac i'r gymdeithas yn ehangach.